**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 04.07.25 |
| **Pwnc / Subject:** | **Rheoleiddio darparwyr addysg uwch a dynodi cymorth i fyfyrwyr** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i’r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy’n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella’r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw’r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

At ei gilydd, rydym yn gefnogol i’r rheoliadau i gefnogi sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol sy’n darparu addysg uwch yng Nghymru. Yn benodol, rydym yn cydnabod ac yn croesawu’r canlynol yn gryf:

- y pwyslais clir ar leihau neu osgoi dyblygu diangen o ran y baich weinyddol ar ddarparwyr, Medr a Llywodraeth Cymru;
- y potensial ar gyfer cyflawni mwy o gysondeb a symleiddio trefniadau cymeradwyo, cyllid a chymorth;
- effaith gyffredinol gyfun y cynigion hyn ar sicrhau mynediad teg at gymorth myfyrwyr i fyfyrwyr Cymru astudio rhaglenni addysg uwch dynodedig unrhyw le yn y Deyrnas Unedig.

**Cwestiynau’r ymgynghoriad**

**C 1. Ydych chi’n cytuno â’r cynnig i gynnal y polisi presennol a dim ond nodi cyrsiau tystysgrif mewn addysg amser llawn israddedig ac ôl-raddedig fel cyrsiau cymhwyso at ddiben cyfyngiadau ffioedd dysgu?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Rydym yn cefnogi’r cynnig i gadw’r polisi presennol.

Dylai’r dull hwn ddarparu’r eglurder a’r parhad angenrheidiol er mwyn gallu trosglwyddo cyfrifoldeb yn esmwyth yn ystod y cyfnod pontio hwn, ac osgoi unrhyw darfu diangen ar drefniadau cyflwyno, cyllid a chymorth presennol. Dylai hefyd osgoi cyflwyno unrhyw drefniadau gweinyddol newydd yn ystod y cam pontio ac atal unrhyw darfu posibl i ddarparu’r categorïau hyn o gyrsiau.

**C 2. Ydych chi'n cytuno y dylai cofrestru gyda Medr fod yn rhagofyniad ar gyfer dynodi cyrsiau Cymraeg addysg uwch fel mater o drefn, gan gynnwys cyrsiau rhan-amser ac ôl-raddedig, at ddiben cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Rydym yn cytuno y dylai cofrestru gyda Medr fod yn rhagofyniad ar gyfer dynodi cyrsiau Cymraeg addysg uwch fel mater o drefn, gan gynnwys cyrsiau rhan-amser ac ôl-raddedig, at ddiben cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod ac yn croesawu'r symudiad fel rhan o'r strategaeth a nodwyd yn flaenorol tuag at gyflwyno system reoleiddio fwy cydlynus ac integredig.

Mae gan y symudiad y potensial i symleiddio trefniadau polisi presennol sy'n gofyn am ddynodi cyrsiau penodol. Dylai hyn fod o fudd i'r holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Medr a darparwyr, yn ogystal â darparu mwy o eglurder a sicrwydd i ddysgwyr trwy osgoi unrhyw ansicrwydd posibl i ddysgwyr o ran p'un a fydd y cwrs y maent yn ymgeisio amdani yn denu cymorth i fyfyrwyr.

**C 3. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai cyrsiau addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr sydd wedi cofrestru gydag OfS, p'un a ydynt wedi eu cofrestru yn y categorïau Cymeradwy neu Gymeradwy (cap ffioedd), gael eu dynodi fel mater o drefn at ddiben cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Rydym yn cytuno â'r cynnig y dylai'r cyrsiau addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr sydd wedi cofrestru gydag OfS, mewn categorïau Cymeradwy neu Gymeradwy (cap ffioedd), gael eu dynodi fel mater o drefn at ddiben cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod ac yn croesawu arbedion posibl y dull hwn o ran lleihau'r baich gweinyddol ar Medr a'r darparwyr dan sylw, yn ogystal â dod â dynodi cyrsiau yn unol â rheoliadau llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn Lloegr, a galluogi mynediad teg i fyfyrwyr o Gymru sy'n mynychu darparwyr o'u dewis naill ai yng Nghymru neu yn Lloegr.

**C 4. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai cyrsiau addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig yn yr ysgol gael eu dynodi fel mater o drefn at ddiben cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru?**

**Cytuno**

**Sylwadau ategol:**

Mae hyn yn cyfeirio at gyrsiau yn Lloegr felly rydym yn ei gefnogi am y rhesymau a amlinellir yn yr ymateb i gwestiwn 3.

Yng Nghymru, nid oes gennym ni unrhyw raglenni addysg uwch addysg gychwynnol athrawon (AGA) sy'n cael eu darparu gan ysgolion ar hyn o bryd (caiff yr holl raglenni eu darparu gan bartneriaethau darparwyr addysg uwch a'u hysgolion partner). Pe byddem yn cynnal unrhyw gyrsiau o'r fath yng Nghymru yn y dyfodol, rydym yn cytuno y dylid eu dynodi ar gyfer cymorth gan Lywodraeth Cymru fel mater o drefn, fel eu bod yn gydradd â rhaglenni AGA eraill yng Nghymru. Mae'n bwysig nodi bod yr achrediad TEAB yng Nghymru gyda'r cwrs, yn hytrach na'r darparwr, felly byddai angen trefniant gwahanol.

**C 5. Beth yw eich barn ar y dull arfaethedig i ddynodi cyrsiau a ddarperir ar ran darparwyr addysg uwch sy'n cael eu rheoleiddio, at ddiben cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru?**

Rydym yn cefnogi'r dull arfaethedig i ddynodi cyrsiau a ddarperir ar ran darparwyr addysg uwch sy'n cael eu rheoleiddio, at ddiben cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru. Mae cysondeb â diwygiadau arfaethedig i ddynodi darparwyr cofrestredig yn Lloegr fel mater o drefn, a gyda pholisi presennol Llywodraeth Cymru ar ddynodi cyrsiau a ddarperir ar ran sefydliadau cofrestredig yn Lloegr, yn briodol. Byddai hefyd yn cynnig parhad ac yn sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn gallu manteisio ar addysg uwch mewn ffyrdd arloesol a hygyrch y tu hwnt i leoliadau prifysgol traddodiadol.

**C 6. Ydych chi'n rhagweld unrhyw oblygiadau o ran adnoddau neu gostau ar gyfer eich sefydliad yn deillio o'r dull arfaethedig i ddynodi cyrsiau addysg uwch fel mater o drefn ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru?**

**Nac ydym**

**Sylwadau ategol:**

Gan nad yw Estyn yn ymwneud yn uniongyrchol â gweinyddu neu reoleiddio dynodi cyrsiau addysg uwch ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru, nid ydym yn rhagweld bod unrhyw oblygiadau o ran adnoddau neu gostau ar gyfer ein sefydliad yn deillio o'r dull arfaethedig i ddynodi fel mater o drefn.

**C 7. Ydych chi'n rhagweld y bydd unrhyw arbedion costau ar gyfer eich sefydliad yn deillio o'r dull arfaethedig i ddynodi cyrsiau addysg uwch ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru? (Gall hyn gynnwys arbedion ar unwaith neu ostyngiadau mewn costau hirdymor.)**

**Nac ydym**

**Sylwadau ategol:**

Gan nad yw Estyn yn ymwneud yn uniongyrchol â gweinyddu neu reoleiddio dynodi cyrsiau addysg uwch ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru, nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw arbedion costau ar gyfer ein sefydliad yn deillio o'r dull arfaethedig i ddynodi cyrsiau addysg uwch ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth Cymru.

**C 8. Ydych chi'n meddwl y gallai unrhyw un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar unrhyw bobl â nodweddion gwarchodedig a gwmpesir gan y ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Os felly, sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud â dynodi cyrsiau addysg uwch fel mater o drefn at ddibenion cymorth i fyfyrwyr. Ni fyddant yn effeithio ar y rhan fwyaf o fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru ac sy'n defnyddio cymorth i fyfyrwyr i ariannu eu hastudiaethau. Felly, nid ydym yn credu y byddai unrhyw un o'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig a gwmpesir gan ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Rydym yn awgrymu y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol trwy wybodaeth dargedig sydd wedi'i chynllunio i hysbysu a rhoi sicrwydd i ddarpar fyfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig am eu hawl, natur a graddau posibl y cymorth a'r trefniadau ar gyfer gwneud cais am gymorth i fyfyrwyr, a manteisio arno.

**C 9. Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ar y Gymraeg? Mae gennym ni ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Ar sail y wybodaeth a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, mae'n ymddangos yn annhebygol y bydd y cynigion yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu niweidiol sylweddol ar y Gymraeg.

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

Bydd darparu deunyddiau dogfennau allweddol Cymraeg ar-lein neu ar ffurf copi caled yn hanfodol ac yn fuddiol wrth bwysleisio mynediad cyfartal at gymorth i fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr o Gymru.

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?**

Gallai deunyddiau sy'n amlinellu manteision astudio yng Nghymru a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu ar raglenni a gyflwynir yn ddwyieithog fod yn fuddiol wrth annog manteisio ar ddarpariaeth o'r fath ac wrth astudio mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru.

**C 10. Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn:**

**cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**

**liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Yn ei ffurf bresennol, er bod y ddogfen ymgynghori a'r cynigion oddi mewn iddi yn cyfeirio at fyfyrwyr o Gymru, nid yw'n cyfeirio'n benodol at y Gymraeg heblaw yng ngeiriad cwestiynau 9 a 10. Byddai'r cynnig yn gryfach trwy nodi cyfleoedd i integreiddio materion Cymraeg mewn adrannau amrywiol o'r cynigion. Er enghraifft, dylai'r cynnig naill ai bwysleisio pwysigrwydd a gwerth ystyried argaeledd cyrsiau a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg neu flaenoriaethu darparu cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu neu gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**C 11. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:**

Wrth drafod darpariaeth addysg uwch gydag arweinwyr a staff mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, rydym yn aml yn wynebu cryn ddryswch ynghylch trefniadau rheoleiddio, cyllid a chymorth myfyrwyr o ran y gwahaniaethau rhwng cymwysterau addysg uwch 'penodedig' ac 'amhenodedig'. Byddem yn annog disgrifiad a thrafodaeth fwy eglur am y gwahanol gategorïau hyn a'u hariannu o fewn y sector trydyddol i leihau dryswch a chamddealltwriaeth ymhlith arweinwyr, staff a dysgwyr.